Cyhoeddiad gan Gadeirydd y Llywodraethwyr
Governors Chair Announcement

Annwyl Rieni,

Mae'n bleser gennyf eich hysbysu ein bod wedi apwyntio pennaeth profiadol iawn i arwain Ysgol Pencae yn y flwyddyn academaidd nesaf - Mr Richard Carbis.

Mae Mr Carbis wedi arwain nifer o ysgolion yn ystod ei yrfa a bydd yn dod atom o Gonsortiwm Canolbarth y De lle mae wedi bod yn arwain ar y Gymraeg ac ar Arweinyddiaeth.

Hoffwn ddiolch i bawb a bu'n rhan o'r broses gyfweld, yn enwedig y Senedd Ysgol a oedd wedi meddwl am gwestiynau heriol ar ei gyfer!

Edrychwn ymlaen i groesawu Mr Carbis i gymuned agos Ysgol Pencae ac hyderwn y bydd yn adeiladu ar y seiliau cadarn sydd yn yr ysgol yn barod.

Dear Parent / Guardian,

It's a pleasure to announce that we have appointed a new experienced head teacher to lead Ysgol Pencae in the next academic year – Mr Richard Carbis.

Mr Carbis has led various schools and he is currently working at the Central South Consortium where he has been leading on Welsh and Leadership.

I would like to thank everyone that was involved in the interview process, especially the School Senedd who thought of very challenging questions!

We look forward to welcome Mr Carbis to our close community here at Ysgol Pencae and we are confident that he will build on the strong foundations that already exist at Ysgol Pencae.

Pasg Hapus!

D. R. Tiplady

Mr D. Tiplady
Cadeirydd y Llywodraethwyr

PSQM
Primary Science Quality Mark
Valid 2018 - 2021
SILVER AWARD

YSGOL PENCAE
Highfields, Gilian Road
Llandaf, Caerdydd
CF5 2QA
Ffôn: 029 20563851
Ebost: ysgolpencae@cardiff.gov.uk

@ pencae2
Dilynwch ni ar Trydar
Follow us on Twitter

Cylchlythyr Rhif 28/*Newsletter No 28*
12.04.19

Annwyl Riant neu Warcheidwad / *Dear Parent or Guardian,*

Pasg Hapus

Eisteddfod Sir

Llongyfarchiadau anferthol i bob un cystadleuydd yn yr Eisteddfod cylch a sir. Rydym yn falch iawn o lwyddiannau y disgyblion – gwelwyd hyder, ymdrech ac ymroddiad gan bob un! Ardderchog! Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r rhieni ac i'r staff am hyfforddi y disgyblion i safon uchel tu hwnt.

Congratulations to every single competitor in the Eisteddfod Cylch and Sir. We are very proud of the pupil's success – we saw confidence, effort and dedication from every single one. Excellent! I would like to take this opportunity to thank the staff and parents for their time and dedication in coaching the children to such a high standard.

Yn cynrychioli'r ysgol ym Mae Caerdydd fydd / *Representing the school in Cardiff Bay will be:*

	Yn cystadlu ar:
Grace Roberts Unawd Blwyddyn 5 a 6 / *Yr 5 and 6 Solo*	Dydd Llun 27.05.19
Rebeca Derrick Unawd Alaw Werin / *Folk Singing Solo*	Dydd Mawrth 28.05.19
Elen Morse-Gale Unawd Llinynnol / *Strings Solo*	Dydd Mawrth 28.05.19
Cyflwyniad Dramatig / *Dramatig Performance*	Dydd Mawrth 28.05.19

Maes y Fron / *Call of the Wild*

Mae Blwyddyn 4 wedi cael modd i fyw ym Maes y Fron ac wedi ennyn sgiliau heb eu hail. Byddan nhw gyd yn cysgu'n sownd heno! Diolch i'r staff am roi'r profiadau yma i'r disgyblion.

Year 4 had a wonderful time at Call of the Wild learning amazing skills. They will all be sleeping soundly tonight. Thanks to the staff for giving them these lifelong experiences.

PSQM Primary Science Quality Mark
Valid 2018 - 2021
SILVER AWARD

Llwyddiant Rygbi / *Rugby Success*

Llongyfarchiadau i'r timoedd rygbi a fu yn rhan o dwrnamaint Rygbi yr Urdd yng Nghaeau Llandaf. Roedd y safon yn wych. Arbennig yw cyhoeddi bod y tîm rygbi merched wedi ennill rownd rhanbarth Caerdydd ac mai Ysgol Pencae fydd yn cynrychioli Caerdydd yn nhwrnamaint Gŵyl Cynradd yr Urdd yn Aberystwyth ym mis Mai. Ymdrech a Lwydda!

Congratulations to the rugby teams that competed in the Rugby tournament in Llandaf Fields – the standard was excellent. It is a pleasure to announce that the girls tag rugby team won the tournament and are now representing Cardiff in the Primary Festival in Aberystwyth mid-May. Ymdrech a Lwydda!

Rhandir Cwrt yr Insole */ Insole Court Allotment* ***CYWIRIAD / CORRECTION***

Diolch yn fawr iawn i Mr Phelps a Mr Thomas am ofalu ar ôl ein rhandir yng Nghwrt yr Insole. Maent wedi paratoi y tir yn barod i blannu ac maen nhw'n estyn gwahoddiad i ddisgyblion ymuno gyda nhw **Dydd Sadwrn, 13eg o Ebrill rhwng 11yb a 12yh** er mwyn eu helpu i blannu.

Thank you to Mr Phelps and Mr Thomas for looking after our allotment at Insole Court. They have been busy preparing the ground ready for planting. They have extended an invitation to pupils to go and help them plant on ***Saturday, 13th of April between 11am and 12pm.***

Presenoldeb / *Attendance*

Rydym yn derbyn nifer o geisiadau ar gyfer gwyliau yn ystod amser ysgol. Er ein bod yn deall eich sefyllfa fel teuluoedd mae'n bwysig i osgoi hyn heblaw bod rhesymau arbennig.

We are receiving an increased amount of requests for holidays during school time. Please refrain from booking holidays unless it is a special occasion.

Dosbarth	**% Presenoldeb hyd yma */ Attendance to date***
Dosbarth Derbyn	94.15%
Blwyddyn 1	97.3%
Blwyddyn 2	96.4%
Blwyddyn 3	95.8%
Blwyddyn 4	97.4%
Blwyddyn 5	95.8%
Blwyddyn 6	96.9%
Ysgol Gyfan / *Whole School*	96.6%

PSQM Primary Science Quality Mark Valid 2018 - 2021 SILVER AWARD

Rags to Riches – ail-gylchu dillad ac ategolion/*recycyling clothes and accessories*

03.05.19

Os ydych yn tacluso dros wyliau'r Pasg ac am ail-gylchu dillad ac ategolion yna gwerthfawrogwn pe byddech yn gallu eu cadw tan y **3ydd o Fai** gan y bydd cwmni penodol yn eu casglu a'u pwyso, ac yna talu'r arian i'r ysgol - tryma'n byd, gorau'n byd! Diolch o flaen llaw am eich cydweithrediad.

*If you are having a Spring clean over the Easter holidays and eager to recycle clothes and accessories, then please keep them until the **3rd of May**, when a company will come to school to collect and weigh them, and will then pay the school – the heavier the better! Thank you in advance for your co-operation.*

CRaA / PTA

Mae cofnodion cyfarfod y GRaA (11.4.19) wedi eu hatodi gyda'r cylchlythyr hwn. Bydd cyfarfod nesaf y GRaA am 8pm ar nos Iau 23.5.19 yn Nhafarn Radyr Court, Danescourt.

Please see attached minutes of last night's PTA meeting. The next meeting has been scheduled for 8pm on Thursday 23.5.19 at Radyr Court Pub (restaurant side), Danescourt.

Clybiau Ar Ôl Ysgol / *After School Clubs*

Sylwer ar y newidiadau i drefn clybiau yr ysgol... EISTEDDFOD!*
****Please note that some clubs are cancelled this week...EISTEDDFOD!****

Wythnos / *Week:* 29.04.19	**Clybiau / Clubs**			
Dydd Llun	**15.30pm – 16.30pm** Côr / *Choir* (aelodau yn unig / *members only*)			
Dydd Mawrth	*15.30pm – 17.30pm* Cyflwyniad Dramatig *(*Aelodau yn unig */ members only)*	**15.30pm – 16.30pm** Dancefit (aelodau yn unig / *members only*)	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Pêl-droed Bl3 a 4 *Yr 3 and 4 Football Club* (cymysg / mixed)	
Dydd Mercher	**15.30pm – 16.30pm** Jiwdo / *Judo* (aelodau yn unig / *members only*)			
Dydd Iau	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Ffrangeg (aelodau yn unig / *members only*)	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Hwb (aelodau yn unig / *members only*)	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Pêl-rwyd / *Netball Club* (cymysg / mixed)	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Rygbi Bl5 a 6 Yr5 and 6 *Rugby Club* (cymysg / mixed)
Dydd Gwener	*15.30pm – 17.30pm* *Cyflwyniad Dramatig* *(*Aelodau yn unig */ members only)*			
Dydd Sadwrn **04.04.19**	*15.00pm – 17.30pm* *Cyflwyniad Dramatig* *(*Aelodau yn unig */ members only)*			

PSQM Primary Science Quality Mark Valid 2018 - 2021 SILVER AWARD

TOP TIP Diogelwch y We Mis EBRILL *APRIL's Internet Safety TOP TIP*	Targed Teulu Siarter Iaith *Siarter Iaith Family Target*
Sicrhewch bod eich cyfrinair yn un cryf – cyfuniad o lythrennau a symbolau. www.howsecureismypassword.net	Dysgwch tri gair Cymraeg i rywun di-Gymraeg yn ystod y gwyliau. Gwrandewch ar gerddoriaeth: Art Bandini (Yr Unig Un i mi)
Make sure that your password – mix of letters and symbols. www.howsecureismypassword.net	*Teach a non-Welsh speaking person 3 new Welsh words.* *Listen to the band:* Art Bandini (Yr Unig Un i mi)

Dyddiadau pwysig / *Important dates*

Dyddiad / Date	Gweithgaredd / *Activity*
01.05.19	Lluniau Dosbarth *Class Photos*
03.05.19	Casgliad Rags 2 Riches *Collection*
07.05.19 – 14.05.19	B2 – B6: Profion Cenedlaethol/ *National Tests*
27.05.19 – 01.06.19	Hanner Tymor Sulgwyn – Eisteddfod yr Urdd Caerdydd *Whitsun Half Term – Eisteddfod yr Urdd in Cardiff*
22.06.19 + 23.06.19	Gŵyl Tafwyl *Festival* Cyfnod Sylfaen yn perfformio ar y 22.06.19 / *Foundation Phase performing 22.06.19*
28.06.19	Mabolgampau / *Sports Day*
01.07.19 – 04.07.19	Wythnos Feicio Bl5 / *Yr5 Cycling Week*
19.07.19	Diwrnod olaf y flwyddyn academaidd / *Last day of the academic year*

Siwan Dafydd
Pennaeth Dros Dro

PSQM
Primary Science Quality Mark
Valid 2018 - 2021
SILVER AWARD